# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 13.04.15

**Yn bresennol:-**

**Aelod Etholedig:-** Y Cynghorydd Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Miss Margaret Jones a'r Dr Einir Young (yn cadeirio).

**Hefyd yn bresennol:**

Swyddogion Cyngor Gwynedd – Rhun ap Gareth (Dirprwy Swyddog Monitro), Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams a Mr David Clay (y ddau oherwydd buddiant personol yn yr achos dan sylw); Y Cynghorydd Lesley Day a Ms Linda Byrne.

**`1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Dr Einir Young i gadeirio'r cyfarfod.

Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr fod dau aelod annibynnol newydd wedi'u penodi ar y Pwyllgor Safonau yn ddiweddar, ond nad oeddent wedi'u gwahodd i gymryd rhan yn y gwrandawiad hwn gan nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol eto.

Cyfeiriwyd at waeledd sydyn Ms Linda Byrne a chytunwyd i anfon gair at ei theulu yn dymuno iddi adferiad llwyr a buan.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD JULIAN KIRKHAM O GYNGOR CYMUNED ARTHOG**

Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr natur / fformat y gwrandawiad.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan y Swyddog Monitro ynglŷn â thoriad honedig o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Cymuned Arthog gan y Cynghorydd Julian Kirkham, a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau gan y Swyddog Monitro am benderfyniad.

Derbyniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") gŵyn ar 28 Gorffennaf 2014 gan y Cyng. Dorothy Hughes, ("yr Achwynydd"), Cadeirydd Cyngor Cymuned Arthog ("CCA"), fod y Cynghorydd Julian Kirkham wedi methu â chadw at God Ymddygiad Aelodau CCA ("y Cod Ymddygiad"), mewn cysylltiad ag e-bost anfonwyd gan y Cyng. Kirkham, Is-gadeirydd CCA ar y pryd, at Gadeirydd Fairbourne Facing Change ("FFC").

Penderfynodd y Swyddog Monitro ymchwilio a oedd y Cynghorydd Kirkham wedi methu â chydymffurfio gyda'r ddarpariaeth isod o'r Cod Ymddygiad:

*"6.- Rhaid i chi -*

*(1) (a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich Awdurdod."*

Cytunwyd rhwng y partïon ymlaen llaw y gellid cynnal y gwrandawiad ar sail sylwadau ysgrifenedig. Ystyriodd y Pwyllgor Safonau felly adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr, adroddiad ysgrifenedig y swyddog Monitro ar ei ymchwiliad a chyflwyniadau ysgrifenedig y Cynghorydd Julian Kirkham.

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod y Cynghorydd Kirkham wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Kirkham wedi torri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad Aelodau.
Anfonwyd yr e-bost dyddiedig 4/7/14 gan y Cyng. Kirkham yn ei swyddogaeth fel aelod ac Is-gadeirydd CCA. Roedd y Cod Ymddygiad felly'n berthnasol.
Roedd geiriad yr e-bost yn dangos bwriad clir i roi'r argraff ei fod wedi ei anfon ar ran CCA ac yn cynrychioli ei farn. Serch hynny, nid oedd wedi ei anfon fel canlyniad i benderfyniad gan CCA yn ei gyfanrwydd. Roedd yr e-bost yn anghywir ac yn cam-gynrychioli barn y Cyngor Cymuned tuag at amcanion FFC a'r Cadeirydd yn bersonol. Gallai felly niweidio'r berthynas rhwng CCA a FFC, a chreu embaras i CCA a'i roi mewn sefyllfa anodd.
Credai'r pwyllgor y byddai'r Cyng. Kirkham, yn enwedig o ystyried ei safle fel Is-gadeirydd, yn gwybod nad oedd CCA wedi penderfynu y dylid anfon y genadwri oedd yn ei e-bost. Byddai hefyd yn gwybod y gallai gael effaith negatif ar y berthynas rhwng y ddau gorff.
Roedd y Cyng. Kirkham eisoes wedi cyfaddef yn ysgrifenedig ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy anfon yr e-bost, ac wrth wneud hynny hefyd wedi creu embaras i CCA. Roedd hefyd wedi cadarnhau ei fod yn derbyn canfyddiadau adroddiad y Swyddog Monitro fod y dystiolaeth yn awgrymu toriad o baragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylai'r Cynghorydd Kirkham cael ei geryddu.

Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:
Nid oedd y Pwyllgor o'r farn fod hyn yn doriad anfwriadol o'r Cod Ymddygiad.
Roedd y Cyng. Kirkham wedi mynd ati'n fwriadol i anfon yr e-bost gan wybod nad oedd yn cynrychioli barn y Cyngor Cymuned yn gywir, a'i effaith debygol. Roedd angen cymryd camau felly.
Serch hynny, cymerodd i ystyriaeth hefyd fod y Cynghorydd Kirkham wedi syrthio ar ei fai ac wedi ymddiheuro yn ddiamod i'r Cyngor Cymuned ac i Gadeirydd FFC, gan gadarnhau na fyddai sefyllfa o'r fath yn codi eto. Ymhellach, roedd wedi cyd-weithredu'n llawn gyda'r Swyddog Monitro yn ei ymchwiliad a gyda'r Pwyllgor Safonau.

Cyhoeddodd y Cadeirydd:-

(1) Y gall y Cynghorydd Julian Kirkham apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru. Bydd rhaid cyflwyno apêl drwy anfon rhybudd ysgrifenedig i Lywydd y Panel Dyfarnu o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd o benderfyniad. Bydd rhaid i'r rhybudd apêl nodi'r rhesymau dros apelio a hefyd p'un a yw'r aelod yn cydsynio i'r apêl gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.
(2) Y cyhoeddir adroddiad ar ddeilliant yr ymchwiliad yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

(3) Yr hysbysir y Cynghorydd Julian Kirkham, yr achwynydd ac Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.35pm.